



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai: Diweddariad Rhanddeiliad, Ionawr 2018

Blwyddyn Newydd Dda!

Mis diwethaf wnaethom gwrrdd â carreg filltir penodol pan gyhoeddwyd y data cyntaf ar gyflwr tai yng Nghymru am 10 blynedd; ac yn ystod y pen-blwydd 50 oed o gynnal yr arolygon hyn yng Nghymru. Ni hefyd yw'r arolwg cyflwr tai cyntaf yn y DU i gyhoeddi'r canlyniadau pennawd yn yr un flwyddyn â'r gwaith maes yn gorffen (ond i fod yn deg, ni wnaethom gynnwys y dadansoddiad Tlodi Tanwydd er mwyn cyhoeddi mor fuan â phosib).

Estyniad Cyllid ar gyfer y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai

Yn gynnar ym mis Rhagfyr wnaethom gael cadarnhad ein bod wedi derbyn 2 flwyddyn pellach o gyllid, yn ein cymryd o ddiwedd Mawrth 2019 hyd at ddiwedd Mawrth 2021. Pwrpas hyn yw i wneud y gorau o'r dadansoddiadau posibl ar ddata Arolwg Cyflwr Tai Cymru, parhau i ddatblygu a defnyddio Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru, ac i gynnal arfarniad opsiynau ar gyfer dyfodol y Rhaglen.

Arolwg Cyflwr Tai Cymru (ACTC)

Ar 6 Rhagfyr 2018 fe gyhoeddwyd y canlyniadau cenedlaethol cyntaf o [Arolwg Cyflwr Tai Cymru \(ACTC\) 2017-18](#). Roedd y datganiad yn canolbwyntio ar nodweddion stoc tai a cyflwr tai. Fe wnaethom weithio gyda'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau er mwyn sicrhau cyhoeddi'r datganiad fel Ystadegau Gwladol.

Cyhoeddwyd hefyd dangosydd canlyniadau hawdd i'w ddefnyddio sy'n galluogi defnyddwyr i archwilio'r canlyniadau ar ystod o bynciau. Mae'r dangosydd ar y foment ond yn cynnwys y prif ystadegau sydd yn y Datganiad Cyntaf, ond fe fydd yn cael ei ehangu wrth i ni wneud mwy o ddadansoddi. I'r rheini sydd â ddi-ddordeb yn sut y casglwyd y wybodaeth arolwg mae adroddiad ansawdd ac adroddiad technegol gryno ar [wefan ACTC](#).

Fe fydd set ddata (heb ei ddatgelu) o Arolwg Cyflwr Tai Cymru ar gael ar [Archif Data'r DU](#) cyn hir, gyda data mwy manwl ar gael o'r [Tîm ACTC](#), o dan trwydded arbennig.

Nawr bod y canlyniadau pennawd wedi cael eu cyhoeddi, byddwn yn gweithio ar ddadansoddiadau mwy manwl pwnc penodol (ar lefel cenedlaethol). Gallwch canfod mwy o wybodaeth am y cyhoeddiadau a gynlluniwyd ar [wefan ACTC](#). Byddwn hefyd yn edrych ar fodelu amcangyfrifon lefel is.

Fe fydd amcangyfrifon pennawd Tlodi Tanwydd ar gael ym mis Ebrill 2019, gyda adroddiad mwy manwl i'w ddilyn yn yr haf.

Os hoffech chi rhagor o wybodaeth, neu am unrhyw geisiadau data, cysylltwch â [Tîm ACTC](#).

Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru

Mae gwaith ar Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru wedi cael ei raddio yn ôl dros dro wrth i'r tîm rhoi blaenoriaeth i gyhoeddi canlyniadau pennawd ACTC. Bydd y gwaith ar yr Adnodd yn ail-ddechrau yn y Flwyddyn Newydd, gyda ffocws ar ddarparu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol â achos busnes ar gyfer setiau data Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, a Asiantaeth y Swyddfa Brisio er mwyn galluogi rhannu trwy Ddeddf yr Economi Ddigidol. Byddwn hefyd yn peri a mudo'r data i safle lletya tymor hir ar gyfer yr Adnodd, Llwyfan Ymchwil Diogel yn y DU, yn ogystal â ail-ddechrau ar lanhau a chysylltu data presennol.

Cysylltwch â ni

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar [dudalennau'r Rhaglen](#) neu drwy gysylltu ag ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru.

Dad-danysgrifio

Rhowch wybod i ni os nad ydych yn dymuno derbyn y diweddariadau yma yn y dyfodol.

Ebost: ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru

Ionawr 2019